Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Hawliau Pobl Anabl, Cymru

## Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma a beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Gynllun Hawliau Pobl Anabl, Cymru (2025-2035)**’.

**Mai 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau glas yn ei feddwl ar **dudalen 33**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/cynllun-drafft-ar-hawliau-pobl-anabl

**Ebost:** YmgynghoriadCynllunHawliauPoblAnabl@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247

# Cynnwys


**Am y ddogfen yma ........ 4**

**Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn ........ 5**

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf ........ 17**

**Geiriau anodd ........ 33**

# Am y ddogfen yma




Rydyn ni wedi gwneud cynllun o'r enw **Cynllun Hawliau Pobl Anabl.** Rydych chi'n gallu darllen y fersiwn Hawdd ei Ddeall yma: www.llyw.cymru/cynllun-drafft-ar-hawliau-pobl-anabl



Mae'n dweud beth rydyn ni am ei wneud i wneud Cymru yn lle gwell i bobl anabl.




**Mae'r ddogfen yma am:**

- beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma i wneud Cymru yn lle gwell i bobl anabl,
- a beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf.

# Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn

## Cymdogaethau a lleoedd

### Teithio



- Rydyn ni wedi sefydlu grŵp i roi cyngor am drafnidiaeth. Mae'n cael ei arwain gan bobl anabl.




- Rydyn ni’n gwneud arolygon gyda phobl anabl am deithio.



- Rydyn ni wedi cefnogi awdurdodau lleol i wella gwybodaeth **hygyrch** mewn arosfannau bysiau.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod unrhyw un yn gallu defnyddio rhywbeth yn hawdd. Gyda thrafnidiaeth - mae hyn yn meddwl eu bod nhw’n gallu defnyddio trafnidiaeth yn hawdd a mynd o gwmpas yn llawer haws.



- Rydyn ni’n gwneud yn siŵr bod apiau teithio newydd yng Nghymru yn **hygyrch**.



- Rydyn ni’n gwneud yn siŵr bod mwy o bwyntiau gwefru ar gyfer cadeiriau olwyn. A gwella offer a gwybodaeth arall.



- Rydyn ni’n gweithio gyda phobl anabl i helpu i wneud yn siŵr bod trafnidiaeth yn fwy **hygyrch**.

## Tai

Rydyn ni yn:



- Adolygu ein canllaw o'r enw **Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)**. Felly rydyn ni’n gwneud yn siŵr ei fod yn fwy **hygyrch** i bobl anabl.



- Gwneud yn siŵr bod cynghorau lleol yn gweithio gyda phobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ffyrdd maen nhw’n gallu ei ddeall.




- Gweithio gyda sefydliadau tai i wneud yn siŵr bod eu gwybodaeth yn **hygyrch**. Hefyd i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwybod pa dai sydd ei angen.

## Model cymdeithasol o anabledd



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ffordd o feddwl am ac ystyried anabledd.

Mae'n dweud bod y ffordd y mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.



Dydy person ddim yn anabl gan ei nam neu ei wahaniaeth. Mae person yn anabl gan bethau yn ein cymdeithas.

Mae angen i gymdeithas newid ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl. Mae hyn yn meddwlagweddau a dealltwriaeth pobl.

Rydyn ni yn:



- Edrych ar ein rhaglen hyfforddi ar gyfer staff am y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



- Gwneud hyfforddiant ar-lein am y **Model Cymdeithasol o Anabledd** ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

# Cyflogaeth, Incwm ac Addysg

## Cyflogaeth ac incwm

Rydyn ni yn:



- Gweithio gyda sefydliadau anabl i greu canllaw am **gaffael**.



Mae **caffael** yn meddwl dod o hyd i a phrynu nwyddau a gwasanaethau i ateb anghenion pobl. Rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr ein bod yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan sefydliadau sy'n dilyn y **model cymdeithasol** yn unig.



- Gwneud ymchwil i gyflogwyr a'u dealltwriaeth o anabledd.



- Cefnogi cyflogwyr i gyflogi pobl anabl.

- Ceisio gwneud yn siŵr bod mwy o gyflogwyr yn bodloni'r cynllun **Hyderus o ran Anabledd**. Dyma gynllun sy'n gwneud yn siŵr bod cyflogwyr yn cefnogi pobl anabl yn dda.



- Cefnogi pobl anabl yn eu gyrfaoedd.

# Plant a phobl ifanc

Rydyn ni yni:



- Gwneud yn siŵr bod addysg yn ateb anghenion dysgwyr.



- Mae edrych ar y system **Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn gweithio'n dda.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn deall hawliau plant.



- Cefnogi pobl ifanc anabl gyda'u gyrfaoedd.

# Byw'n annibynnol

## Lles

Rydyn ni yni:




- Gweithio gyda darparwyr gwyliau i wella gwybodaeth am gyfleusterau **hygyrch**. Er enghraifft, lleoedd i aros gydag ystafelloedd ymolchi **hygyrch**.




- Cefnogi chwaraeon i bobl anabl yn yr iaith Gymraeg.



- Gwneud yn siŵr bod mannau chwarae mwy **hygyrch**.



- Gwneud yn siŵr bod cynghorau lleol yn rhoi gwybodaeth am ofal plant **hygyrch**.



- Gwneud yn siŵr bod **meddalwedd iaith gynorthwyol** ar gael yn Gymraeg i bobl anabl.



Mae **meddalwedd iaith gynorthwyol** yn helpu pobl sy'n cael trafferth gyda lleferydd neu iaith. Mae'n defnyddio pethau fel testun-i-leferydd a symbolau i helpu pobl i gyfathrebu.

## Camau gweithredu iechyd, gofal a chymorth

Rydyn ni yni:



- Gwneud dogfen i helpu i edrych pa mor dda mae cynghorau lleol yn gwneud yn eu gwaith.



- Gweithio gyda phobl anabl i ddeall a fyddai sefydlu **Canolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol** yn syniad da.



- Gwella safonau ar sut rydyn ni’n cyfathrebu â phobl i ateb eu hanghenion.



- Gwella sut mae pobl ifanc anabl yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.



- Gweithio i wella sut mae pobl anabl yn cael eu **rhyddhau o'r ysbyty**.



**Rhyddhau o'r ysbyty** ydy'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.

# Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogol

## Mynediad at gyfiawnder



- Rydyn ni’n gwneud yn siŵr bod gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel ac yn ateb anghenion pobl.




- Fe wnaethon ni sefydlu grŵp am Iaith Arwyddion Prydain i helpu i wella gwasanaethau i bobl fyddar.

## Mynediad at wasanaethau




- Rydyn ni’n gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i helpu i wneud yn siŵr bod mwy o bobl anabl yn gweithio mewn gwleidyddiaeth. Mae hyn yn meddwl sefydlu cronfa ar gyfer ymgeiswyr anabl.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf




Dyma ein **camau gweithredu tymor byr** - beth fyddwn ni'n ei wneud yn y blynyddoedd nesaf.



Fe fydd y camau gweithredu yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru. Fe fyddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid lle mae angen.

## Cymdogaethau a lleoedd

### Camau gweithredu teithio



- Casglu gwybodaeth am fannau parcio'r Bathodyn Glas. Rhoi’r wybodaeth ar wefannau trafnidiaeth.



- Gweithio gyda phobl anabl i ddatblygu gwasanaethau trafnidiaeth. Ac i edrych pa mor dda maen nhw'n ateb anghenion pobl.



- Gwneud yn siŵr bod darparwyr trafnidiaeth yn gofyn i blant a phobl ifanc anabl am adborth.




- Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd ar gyfer staff trafnidiaeth. Er enghraifft, staff trenau, gyrwyr tacsi a staff maes awyr.

## Camau gweithredu tai



- Gwella tai **hygyrch** i bobl anabl, eu gofalwyr a'u plant pan fyddan nhw’n ffoi rhag trais. Er enghraifft, gadael cartref lle maen nhw'n profi **camdriniaeth**.



- Adolygu **Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021**. Mae'r ddogfen yma yn nodi safonau gofynnol ar gyfer **tai cymdeithasol**.



**Tai cymdeithasol** ydy cartrefi sy'n fforddiadwy i bobl sydd heb lawer o arian. Maen nhw fel arfer yn cael eu rheoli gan y cyngor neu gymdeithasau tai.



- Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella tai wedi'u haddasu. Mae'r rhain yn gartrefi sy'n cael eu newid i ateb anghenion pobl anabl. Er enghraifft, ehangu drysau ar gyfer cadeiriau olwyn, neu roi lifftiau grisiau i bobl sy'n cael trafferth cerdded i fyny'r grisiau.




- Gwella gwybodaeth am dai **hygyrch**.



- Creu a darparu hyfforddiant i ddarparwyr tai.



- Gweithio gyda phobl anabl i ddeall materion tai yn well. Gan gynnwys pobl anabl Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

## Camau gweithredu y Model Cymdeithasol o Anabledd



- Gwneud yn siŵr bod y **model cymdeithasol o anabledd** yn cael ei ddilyn mewn **caffael**.




- Adolygu polisïau i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys pobl anabl. Gweithio gyda phobl anabl i edrych ar, a gwella polisïau a ffyrdd o weithio.

## Camau gweithredu cyflogaeth ac incwm



- Gwneud yn siŵr bod ein Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn rhoi cyngor a gwybodaeth i gyflogwyr.



- Codi ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth pobl anabl. Gwella cyflogaeth i bobl anabl drwy weithio gyda chyflogwyr, **undebau llafur**, sefydliadau pobl anabl a'r cyhoedd.



Mae **undebau llafur** yn sefydliadau sy'n amddiffyn hawliau gweithwyr.



- Gweithio gyda **Medr** i adolygu gwasanaethau cymorth i oedolion anabl sydd eisiau mynd yn ôl i addysg neu hyfforddiant. Mae **Medr** yn ariannu addysg ac ymchwil i bobl sy'n 16 oed a hŷn yng Nghymru.



- Gwella gwybodaeth a **hygyrchedd** gwasanaethau cymorth i bobl anabl hunangyflogedig.



- Adolygu **Cynllun Prentisiaethau Cynhwysol Llywodraeth Cymru** a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Mae'r cynllun yma yn cefnogi pobl anabl i gael **prentisiaethau**.



**Prentisiaeth** ydy pan fydd pobl yn hyfforddi tra maen nhw'n gweithio. Maen nhw fel arfer yn cael eu talu llai oherwydd eu bod yn dal i ddysgu.

## Camau gweithredu plant a phobl ifanc



- Adolygu'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn dod i mewn i gyflogaeth. Er enghraifft, **prentisiaethau** a **hyfforddiant galwedigaethol**.


> Mae **hyfforddiant galwedigaethol** yn meddwl hyfforddiant ar gyfer swydd neu grefft benodol.




- Deall pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol swyddi. Cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc anabl mewn cynlluniau ar gyfer y gweithlu.




- Diweddaru canllawiau i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys anghenion plant a phobl ifanc anabl. Gan gynnwys canllawiau ar reoli ymddygiad, bwlio a phresenoldeb ysgolion.




- Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau, lleoliadau a gwerthwyr tocynnau. Gwneud yn siŵr eu bod yn meddwl am anghenion plant a phobl ifanc anabl. Gofyn iddyn nhw gynnig gostyngiadau neu docynnau am ddim pan maen nhw'n gallu.

## Camau gweithredu lles



- Cynnwys gwybodaeth am y **model cymdeithasol o anabledd** ym mhob cais a gwerthusiad prosiect.



- Gweithio gyda sefydliadau i wella digwyddiadau, arddangosfeydd a pherfformiadau **hygyrch**.



- Adolygu sut mae gwaith Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwasanaethau gofal plant a chwarae i fod yn **hygyrch**.



- Cefnogi gweithwyr gofal plant a chwarae i gael yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi plant anabl.



- Sefydlu bwrdd cynghori i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r **Cynllun Hawliau Pobl Anabl**.

## Camau gweithredu iechyd, gofal a chymorth



- Gweithio gyda sefydliadau pobl anabl i greu cronfa newydd sy'n cefnogi anghenion gofal cymdeithasol pobl anabl.




- Gweithio gyda phlant ac oedolion anabl i wneud yn siŵr bod eu hawliau yn cael eu hystyried ym mhob gwaith a pholisïau.



- Gweithio gyda phobl anabl i ddeall a fyddai sefydlu **Canolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol** yn syniad da.



- Gweithio gyda phlant ac oedolion anabl i greu **model cymdeithasol** o hyfforddiant anabledd ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol.



- Gweithio gyda'r holl ddarparwyr i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn gallu byw yn annibynnol gartref lle bynnag mae’n bosibl.



- Ysgrifennu polisi i wneud yn siŵr bod babanod byddar, plant a'u teuluoedd yn gallu dysgu Iaith Arwyddion Prydain.



- Gwneud yn siŵr bod y **model cymdeithasol o anabledd** wedi'i gynnwys mewn canllawiau i staff a sefydliadau sy'n arolygu gwasanaethau.




- Edrych ar sut mae rheolau ar gyfer arbed arian yn y GIG yn effeithio ar bobl anabl. Gwneud newidiadau os ydy'r effaith yn annheg.

# Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogol

## Camau gweithredu mynediad at gyfiawnder



- Rhoi arian i'r ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru fel ei fod yn gallu canolbwyntio ar droseddau yn erbyn pobl anabl. Mae'r ymgyrch yma yn codi ymwybyddiaeth o effaith **troseddau casineb**.



> Mae **troseddau casineb** yn meddwl cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd anabledd neu hil.




- Adolygu’r argymhellion sydd wedi eu gwneud yn adroddiad y **Pwyllgor Rhyngwladol Hawliau Pobl Anabl (2024)**. Gweithredu ar yr argymhellion lle mae hynny'n bosibl.



- Darparu gwasanaethau sy'n gallu ymateb i bobl anabl sydd wedi profi niwed.



- Gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn deall **troseddau casineb** a **throseddau cyfeillio**. Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut i riportio a chael cefnogaeth.



**Trosedd cyfeillio** ydy pan fydd rhywun yn esgus bod yn ffrind i chi i'ch defnyddio chi a chael rhywbeth maen nhw ei eisiau oddi wrthych chi.



- Gofyn i Lywodraeth y DU am wybodaeth am bobl anabl yn y carchar.



- Gwneud yn siŵr bod y **model cymdeithasol** o hyfforddiant anabledd ar gael i staff carchar.



- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod hawliau ac anghenion pobl anabl yn cael eu cynnwys yn y **system gyfiawnder**.



Y **system gyfiawnder** ydy llysoedd, heddlu, a charchardai. Mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y gyfraith.




- Gwneud yn siŵr bod anghenion cyfathrebu carcharorion yn cael eu gwirio'n gynnar i wella mynediad at addysg.



- Cynnwys anghenion pobl anabl yn y **Strategaeth Atal ac Ymateb i Gam-drin Rhywiol Plant**. Mae'r cynllun yma yn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr **camdriniaeth**.



**Cam-drin** ydy pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n ddrwg.

**Camau gweithredu mynediad at wasanaethau**



- Gwneud yn siŵr bod holl staff Llywodraeth Cymru yn deall y **model cymdeithasol o anabledd**.



- Gweithio gyda sefydliadau pobl anabl ar ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o anabledd. Gan gynnwys hyrwyddo BSL, siaradwyr Cymraeg, hawliau anabledd, a byw'n annibynnol.



- Annog sefydliadau a chyflogwyr i gael **Hyrwyddwr Pobl Anabl**. Dyma berson o fewn sefydliad sy'n sefyll dros hawliau pobl anabl.

# Geiriau anodd

## Caffael

Mae caffael yn meddwl dod o hyd i a phrynu nwyddau a gwasanaethau i ateb anghenion pobl. Rydyn ni’n gallu gwneud yn siŵr ein bod yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan sefydliadau sy'n dilyn y model cymdeithasol yn unig.

## Cam-drin

Cam-drin ydy pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n ddrwg.

## Hyfforddiant galwedigaethol

Mae hyfforddiant galwedigaethol yn meddwl hyfforddiant ar gyfer swydd neu grefft benodol.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod unrhyw un yn gallu defnyddio rhywbeth yn hawdd.

## Meddalwedd iaith gynorthwyol

Mae meddalwedd iaith gynorthwyol yn helpu pobl sy'n cael trafferth gyda lleferydd neu iaith. Mae'n defnyddio pethau fel testun-i-leferydd a symbolau i helpu pobl i gyfathrebu.

## Model cymdeithasol o anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ffordd o feddwl am ac ystyried anabledd.

Mae'n dweud bod y ffordd mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.

Dydy person ddim yn anabl gan ei nam neu ei wahaniaeth. Mae person yn anabl gan bethau yn ein cymdeithas.

Mae angen i gymdeithas newid ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl. Mae hyn yn meddwl agweddau a dealltwriaeth pobl.

## Prentisiaeth

Prentisiaeth ydy pan fydd pobl yn hyfforddi tra maen nhw'n gweithio. Maen nhw fel arfer yn cael eu talu llai oherwydd eu bod yn dal i ddysgu.

## Rhyddhau i'r ysbyty

Rhyddhau o'r ysbyty ydy'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.

## System gyfiawnder

Y system gyfiawnder ydy llysoedd, heddlu, a charchardai. Mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y gyfraith.

## Tai cymdeithasol

Tai cymdeithasol ydy cartrefi sy'n fforddiadwy i bobl heb lawer o arian. Maen nhw fel arfer yn cael eu rheoli gan y cyngor neu gymdeithasau tai.

## Troseddau casineb

Mae troseddau casineb yn meddwl eich bod yn cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd anabledd neu hil.

## Troseddau cyfeillio

Trosedd cyfeillio ydy pan fydd rhywun yn esgus bod yn ffrind i chi i'ch defnyddio chi a chael rhywbeth maen nhw ei eisiau oddi wrthych chi.

## Undebau llafur

Mae undebau llafur yn sefydliadau sy'n amddiffyn hawliau gweithwyr.